Pembrokeshire Public Services Board

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO
DYDD MERCHER 30 TACHWEDD 2016 am 2.00pm
SWYDDFEYDD AWDURDOD PORTHLADD ABERDAUGLEDDAU

Yn bresennol:

Cyng Jamie Adams	Arweinydd, Cyngor Sir Penfro (Cadeirydd)
Ian Westley	Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro
Dafydd Llywelyn	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, Dyfed Powys
Alec Don	Prif Weithredwr, Porthladd Aberdaugleddau
Judith Hardisty	Is-gadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Sue Leonard	Prif Swyddog, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
Tegryn Jones	Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Rob Quin	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Amelia John	Dirprwy Gyfarwyddwr yr Isadran Cymunedau, Llywodraeth Cymru
Dave Evans	Coleg Sir Benfro
Ian Scale	Ymgynghorydd mewn Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Dr Steven Jones (SPJ)	Cyfarwyddwr Datblygu, Cyngor Sir Penfro
Rowland Rees-Evans	Is-gadeirydd, Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru
Catrin Bradley	PLANED
Andrea Winterton	Rheolwr Gweithrediadau Gorllewin Cymru Sir Benfro, Morol a Monitro, Cyfoeth Naturiol Cymru
Uwcharolygydd Ian John	Heddlu Dyfed Powys
Paul Morris	Heddlu Dyfed Powys

Hefyd yn bresennol

Claire George	Cydlynydd Cymorth Partneriaeth a Chraffu, CSP

Cymorth/Ysgrifenyddiaeth

Nick Evans	Rheolwr Cymorth Partneriaeth a Chraffu, Cyngor Sir Penfro
Lynne Richards	Cydlynydd Cymorth Partneriaeth a Chraffu, Cyngor Sir Penfro

Ymddiheuriadau

Bernadine Rees	Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Is-gadeirydd)
Steve Moore	Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Sarah Jennings	Cyfarwyddwr Llywodraethu, Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Teresa Owen	Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Sharron Lusher	Pennaeth, Coleg Sir Benfro
Jocelyn Llewhellin	Uwch Reolwr Cysylltiadau Allanol, Canolfan Byd Gwaith
Pam Kelly	Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro, Heddlu Dyfed Powys
Kate Chamberlain	Llywodraeth Cymru

Dechreuodd y cyfarfod am 2.10pm.

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Gwnaed y cyflwyniadau a daeth ymddiheuriadau i law i'r rhai sydd wedi'u rhestru uchod.

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar ddydd Mawrth 26 Gorffennaf 2016 yn wir gofnod.

3. Log Gweithredoedd

Rhan 7 – Hyfforddiant seibrdroseddau – Yn dilyn y cyflwyniad i'r BGC ym mis Gorffennaf, cadarnhaodd IJ y bu cynrychiolaeth dda gan Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin yn y digwyddiadau hyfforddiant ym mis Medi.

Rhan 10 – Cyngor y Celfyddydau – Nododd CG fod swyddogion Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion wedi cyfarfod gyda chynrychiolydd o Gyngor y Celfyddydau i drafod sut roedd pob BGC yn gweithredu a sut hoffai pob un ymgysylltu â nhw. Roedd Sir Gaerfyrddin a Cheredigion wedi gofyn i gynrychiolydd fynychu eu holl gyfarfodydd BGC. Roedd Sir Benfro wedi gofyn iddynt fod ar gael i fynychu cyfarfodydd dim ond pan oedd yr agendâu'n berthnasol.

Cytunwyd y dylid gwahodd cynrychiolydd o Gyngor y Celfyddydau i fynychu cyfarfod yn gynt yn lle'n hwyrach, oherwydd byddai ymgysylltiad gyda Chyngor y Celfyddydau'n rhan bwysig o waith y BGC. **NE/CG**

4. Datblygu camau gweithredu o Weithdy'r BGC

Atgoffwyd y partneriaid yn dilyn y Gweithdy a gynhaliwyd ym mis Medi, y cytunwyd y byddai nifer o gamau gweithredu'n cael eu symud ymlaen fel a ganlyn;

(a) Cynnal digwyddiad i staff y rheng flaen ar sail lleoliad

(b) Llunio datganiad gweledigaeth a datblygu set o egwyddorion ar gyfer gwaith y BGC

(c) Datblygu gwobr Balchder yn Sir Benfro a noddir gan y BGC

(d) Datblygu protocol i rannu data er mwyn gwella cydweithio

Gofynnodd NE fod swyddogion arweiniol yn cael eu cadarnhau ar gyfer pob un o'r camau uchod ochr yn ochr â'r gofynion cymorth.

(a) Digwyddiad Staff Rheng Flaen

Adroddodd IJ yn ôl ar y cynigion i gynnal digwyddiad ymgysylltu ag ymarferwyr yn dilyn trafodaethau a gynhaliwyd gyda chydweithwyr lechyd. Y gobaith oedd y byddai'r digwyddiad hwn yn grymuso ac yn creu perthnasoedd rhwng staff y rheng flaen o

wahanol asiantaethau a rhwng staff rheng flaen a staff uwch, yn ogystal â chwalu'r rhwystrau rhwng asiantaethau.

Awgrymwyd cynnal y digwyddiad yn Archifdy Sir Benfro yn dilyn y cyfarfod BGC nesaf ar 31 Ionawr a bod hyd at 10 cynrychiolydd o bob asiantaeth yn cael eu gwahodd i fynychu.

Cafwyd rhywfaint o drafod ynghylch a ddylid gwahodd rheolwyr lefel canolig i fynychu'r digwyddiad hefyd. Fodd bynnag, cytunwyd yn yr achos cyntaf mai dim ond staff llinell flaen fyddai'n cael eu gwahodd. Nodwyd bod ystafell addas yn yr Archifdy ar gael ar y dyddiad penodedig. Byddai IJ yn cysylltu ag LR y tu allan i'r cyfarfod mewn perthynas â chefnogaeth i'r digwyddiad. **IJ**

(b) Datganiad Gweledigaeth/Egwyddorion ar gyfer gwaith y BGC

Dywedodd NE na chafwyd ymateb wrth PK eto, ond, roedd wedi trafod y cam arfaethedig gydag SJ ac IE a gellid dweud fod y Ddeddf ei hun yn ogystal â'r amodau gorchwyl ar gyfer y Bwrdd yn gosod ei egwyddorion. Fodd bynnag, y Bwrdd fyddai'n penderfynu a fyddai'n dymuno ymhél â gwaith pellach. Dywedodd JA ei fod yn awyddus i archwilio symud y cam hwn ymlaen yn symlach er mwyn gwneud didwylledd, tryloywder ac atebolrwydd y Bwrdd yn glir. Teimlai'n gryf y dylid trosi'r neges hon mewn ffordd syml ac roedd yn poeni am y ffaith y cyfeiriwyd at y Bwrdd fel 'cwango' a'r amgyffrediad fod penderfyniadau'n cael eu gwneud y tu ôl i ddrysau caeedig. Cytunodd IW a nododd y dylai'r dull hwn ddatrys yr amgyffrediad negyddol o'r Bwrdd mewn rhai ardaloedd, gan fod risg i waith y grŵp wrth symud ymlaen pe na fyddai'r mater yn cael ei ddatrys.

Nododd TJ mai rhan o'r broblem oedd mater cyfathrebu mewn sefydliadau ac felly efallai y dylai partneriaid wneud mwy i hyrwyddo gwaith y BGC o fewn eu sefydliadau. Awgrymodd AW hefyd y gallai rhywbeth cael ei wneud i hyrwyddo'r BGC fel rhan o weithgaredd yn ymwneud â chyhoeddi Asesiad Lles. Awgrymodd RW hefyd y gallai gwaith BGC gael ei hyrwyddo'n amlach er mwyn gwneud llwyddiannau'r grŵp yn hysbys.

Yna symudodd y drafodaeth ymlaen i a allai partneriaid ymroi'n fwy i waith y BGC pe bai gan bawb gyfran ariannol yng ngwaith y grŵp. Gofynnodd JA i AJ a oedd hi'n ymwybodol o unrhyw BGC arall a oedd wedi ymroi cyllid tuag at eu gwaith a beth oedd y canlyniad. Dywedodd ei bod hi'n ymwybodol fod trafodaethau yn ymwneud â chyllid wedi'u cynnal, ond roedd hi'n anymwybodol o'r canlyniad ond hoffai ymateb ar ôl iddi edrych i mewn iddo. Dywedodd SL ac AW eu bod nhw hefyd yn ymwybodol fod sgyrsiau tebyg mewn perthynas â chyllid wedi'u cynnal mewn BGC eraill.

Awgrymodd AD y gallai dull busnes lle mae pob partner yn cyfrannu tuag at adnodd gweithredol diffiniedig sy'n ymroddedig i hyrwyddo'r Cynllun a bodloni ei amcanion fod yn ffordd ymlaen. Awgrymodd JA i ofyn i bartneriaid statudol ymroi £5,000 tuag at ddatblygu'r cyfle hwnnw yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn adeiladu adnodd canolog. Awgrymodd IW y dylid cynnwys pob partner yn y cynnig a fyddai'n cynorthwyo gyda rhoi adnoddau i'r BGC. Cytunwyd y byddai JA yn dosbarthu cais ysgrifenedig i'r holl bartneriaid. **JA**

(c) Gwobr Balchder yn Sir Benfro

Rhoddodd SPJ amlinelliad o'i gynnig Balchder yn Sir Benfro, a ddatblygwyd yn dilyn y gweithdy mis Medi. Cysylltwyd â'r Western Telegraph a oedd yn hapus mewn egwyddor i fwrw ymlaen â'r cynnig. Y gobaith oedd y byddai'r wobr;

- Yn hyrwyddo gwaith y BGC ac yn ei wneud yn amlycach i'r cyhoedd
- Yn hyrwyddo'r broses Cynllun Lles
- Yn codi neges Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y dylai BGC 'ledu'r gair'

Yn dilyn trafodaeth fer, cytunwyd y dylid symud y cynnig hwn ymlaen gan ddefnyddio'r cyllid a grybwyllwyd dan (b) uchod, os bydd y dull o droi at gyllid yn llwyddiannus.

(d) Rhannu Data

Cytunwyd symud y cynnig yn ei flaen trwy wahodd aelod o swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i fynychu digwyddiad i'r dyfodol i ddarparu trosolwg o ba ddata sy'n gallu ac sy'n methu cael ei rannu. Nododd IJ fod hyn yn rhywbeth y gallai fod gan BGC eraill ddiddordeb ynddo hefyd, yn enwedig yng ngoleuni'r croesiad mewn aelodaeth ymhlith rhai sefydliadau. Cytunwyd y byddai aelodau'r BGC a chynrychiolwyr Cyfreithiol/Llywodraethu Gwybodaeth yn cael eu gwahodd i fynychu digwyddiad (i'w drefnu) ac y byddai cynrychiolwyr BGC eraill yn cael eu gwahodd i fynychu hefyd. **NE/LR**

5. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

a) Diweddariad ar Asesiad Llesiant

Rhoddodd CG drosolwg o'r cynnydd hyd yma gan gynnwys rhai o'r brif wybodaeth sy'n dod trwyddo o'r arolwg a digwyddiadau a gynhaliwyd dros yr haf. Nodwyd sawl gwahaniaeth rhwng yr ardaloedd cymunedol a nodwyd materion gofalwyr fel maes pwysig i nifer fawr o ymatebwyr. Yn ogystal, nodwyd gwahaniaethau rhywedd mewn perthynas â lle'r oedd pobl yn cael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad hefyd.

Nododd CG y byddai dogfen waith ddrafft ar gael yn fuan ac y byddai hon yn cael ei dosbarthu i gysylltiadau ymgysylltu ac aelodau BGC er mwyn iddynt roi sylwadau arni, cyn cael eu rhoi gerbron am gytundeb yng nghyfarfod mis Ionawr y BGC, cyn yr ymgynghoriad ym mis Chwefror. Nododd NE y byddai i fyny i bob sefydliad benderfynu ar beth fyddai'n ofynnol dan ei drefniadau llywodraethu ei hun er mwyn i gynrychiolwyr BGC gael eu hawdurdodi i gymeradwyo'r Asesiad Lles. Atgoffodd CG y partneriaid fod angen cyhoeddi'r datganiadau ardal a'r adroddiad tueddiadau i'r dyfodol o hyd ac felly ni chawsant ddylanwad ar y ddogfen gyfredol, felly dylid edrych ar y ddogfen fel dogfen 'fyw' a'i hadolygu'n gyson. Yna, esboniodd CG sut cafodd y ddogfen ei saernïo yn ôl cam bywyd, a gobeithio bod hyn yn ddull mwy datblygiadol o droi at atal, ymyrraeth ac ati.

(b) Llinell amser gweithgareddau allweddol

Cyflwynodd NE linell amser yn rhoi manylion gweithgareddau cynlluniedig a cherrig milltir wrth gyflawni'r Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant, a ddatblygwyd er mwyn rheoli'r broses o ddatblygu'r ddwy ddogfen. Nododd y partneriaid y gweithgareddau allweddol a'r amserlenni cysylltiedig.

6. Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Rhoddodd JA amlinelliad o'r gofynion o ran craffu'r BGC a nodwyd fod Cadeirydd y Pwyllgor Craffu dynodedig yn arsylwi'r cyfarfod. Amlinellodd hefyd y gofynion yn

ymwneud â phresenoldeb y partneriaid yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, gan nodi y gellid ond craffu partneriaid yn ôl cyfraniad eu sefydliad at waith y BGC.

Trafodwyd y mater gweddarlledu cyfarfodydd unwaith eto yn ddiweddar ym Mhwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor a chyflwynwyd Hysbysiad o Gynnig i'r Cyngor ar gyfer cyfarfod 8 Rhagfyr. Esboniodd JA er y gallai'r Cyngor wneud penderfyniad mewn perthynas â gweddarlledu cyfarfodydd, ni fyddai'r penderfyniad hwn yn un sy'n rhwymo'r BGC. Nodwyd bod y rhesymau am beidio â gweddarlledu cyfarfodydd eisoes wedi'u trafod a heb newid. Nododd JA ei fod yn ddigwyddiad cyson mewn ardaloedd eraill i gyfarfodydd BCG gael eu cynnal mewn swyddfeydd asiantaethau partner a hefyd yn ddigynsail i weddarlledu cyfarfodydd.

7. Adolygiad SIP – Thema'r Amgylchedd

Datganodd CG mai'r diweddariad a gafodd ei gylchredeg oedd diweddariad blynyddol Fforwm Amgylchedd Sir Benfro. Amlygodd nifer o ddatblygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys cyhoeddi Adroddiad Cyflwr Bywyd Gwyllt gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro, oedd â lefel uchel o ymrwymiad gan bartneriaid; ymgynghoriad cyfredol Llywodraeth Cymru ar Barthau Perygl Nitradau a; gwaith Fforwm yr Amgylchedd ar gymunedau gwydn. Nododd CG fod gallu cyfyngedig i symud gwaith y grŵp yn ei flaen ar hyn o bryd oherwydd gofynion y BGC a hefyd oherwydd bod Cadeirydd hirsefydlog y grŵp wedi ymddeol yn ddiweddar. Dywedodd CG ei bod hi'n dymuno diolch iddo am ei ymrwymiad oherwydd mai ef oedd y grym y tu cefn i'r fforwm am sawl blwyddyn. Dywedodd JA y byddai'n ysgrifennu at Mr Davies ar ran BGC i gyfleu eu diolch. **JA**

8. Diweddariad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Eiddo

Dywedodd CG mai ychydig gynnydd a fu gyda gwaith y grŵp a bod sawl rheswm am hyn, gan gynnwys effaith agendâu trawsnewid yr asiantaethau. Nododd DL mwy na thebyg bod hwn yn un maes lle nad oedd modd ennill yn gyflym ac efallai bod yn fater yn ymwneud â gallu'r bobl hynny sy'n mynychu'r grŵp i wneud penderfyniadau ar ran eu sefydliadau.

Awgrymodd RQ y dylai aelod o'r Bwrdd Gadeirio'r grŵp, er mwyn hyrwyddo'r ymgysylltiad rhwng partneriaid a helpu datrys unrhyw faterion. Cytunodd Gadeirio'r grŵp a byddai'n cysylltu â CG mewn perthynas â dyddiadau unrhyw gyfarfodydd i'r dyfodol. Byddai diweddariadau pellach ar waith y grŵp yn cael eu darparu lle maen nhw ar gael.

9. Cymunedau Gwydn – llythyr wrth Lywodraeth Cymru

Rhoddodd AJ drosolwg i'r partneriaid o'r cefndir yn ymwneud â phwnc cymunedau gwydn, a oedd yn cynnwys y cyhoeddiad yn ymwneud â Chymunedau yn Gyntaf, cynlluniau ar gyfer alinio grantiau fel Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf a mwy o ffocws ar y Blynyddoedd Cynnar, Cyflogadwyedd a Grymuso.

Byddai cyfnod ymgysylltu dau gam o gwmpas y tri E, y cam cyntaf yn ystod yr ymgynghoriad yn ymwneud â Chymunedau yn Gyntaf o fewn y cyd-destun hwn a'r ail gam yn ystod mis Ionawr/Chwefror 2017 yn ymwneud â symleiddio cyswllt o ran cytundebau canlyniad. Dywedodd AJ fod BGC mewn lle gwell i ddeall anghenion eu hardaloedd na Llywodraeth Cymru ac y byddai cyfeiriad y daith o fewn cyd-destun Deddf

Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei ystyried hefyd. Mewn perthynas â Chymunedau yn Gyntaf, cymerir dull mewn camau i gau ar draws 2017/18 pe bai'r cynllun yn cael ei gau. Gofynnodd TJ i Lywodraeth Cymru gydnabod materion tlodi gwledig pan oedd hi'n dod i gyllid a gofynnodd JA y byddai lefelau ariannu gwahanol ar draws siroedd yn cael eu hystyried hefyd. Datganodd yr esiampl o'r fformiwla ariannu ar gyfer Sir Gaerfyrddin, a fyddai, o'i roi ar waith yn Sir Benfro, yn golygu y byddai'r awdurdod ar ei gwell o £11.4m. Nododd IW fod mater ymarferol hefyd yn ymwneud â chyllid grant o ran costau diswyddo sy'n gysylltiedig â grantiau fel Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, a gofynnodd fod awdurdodau'n cael eu gwneud yn ymwybodol o gyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach. Dywedodd AJ y byddai'n trosglwyddo'r negeseuon hyn yn ôl i'r Gweinidog, gan nodi mai cyfeiriad y daith oedd symud i ffwrdd o gyllid wedi'i adneuo ac y byddai'n ddefnyddiol dod nôl i'r Bwrdd ar ryw bwynt i drafod hyn ymhellach. **AJ**

10. Atgyfeiriad o Bartneriaeth Cydgomisiynu HSCWB

Rhoddodd JG amlinelliad byr o'r trafodaethau a gynhaliwyd yng nghyfarfod y bartneriaeth ddiwethaf, lle trafododd y partneriaid ddata mewn perthynas â chostau gwasanaethau oedolion a gofal yn y cartref a'r ffaith na ellir cymharu hyn yn erbyn data iechyd. Arweiniodd hyn y partneriaid i benderfynu ail-ganoli eu gweithgareddau mewn perthynas â data er mwyn mesur effaith yn well, a oedd yn arbennig o bwysig wrth symud ymlaen er mwyn gallu bodloni gofynion Deddf SSWB a'r ffordd y cyflwynir gwybodaeth, cyngor a chymorth i gwsmeriaid.

Trafododd y partneriaid yn gryno bwysigrwydd galluogi cymunedau i ganfod atebion iddynt eu hunain a hefyd pwysigrwydd staff y rheng flaen wrth helpu symud y dull hwn yn ei flaen.

11. Unrhyw fater arall

Nid oedd unrhyw fater arall.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.25pm.